# DEDDF NATUR DREFOL

## AMCAN

Mae disgyblion yn gwerthuso'r heriau sy'n wynebu natur mewn dinasoedd ac yn llunio datrysiadau ar lefel polisi.

## TROSOLWG

Tasg y disgyblion yw drafftio set newydd o ddeddfau i warchod natur drefol. Yn gyntaf, rhaid iddyn nhw amlinellu'r bygythiadau mawr i natur drefol, cyn creu deddf i geisio lliniaru pob un. Gall y disgyblion gynnig deddfau newydd i warchod natur drefol, cyn eu trafod a phleidleisio arnynt. Bydd y rhai sy'n cael eu cymeradwyo yn dod yn gyfraith ac yn dod yn rhan o'r Ddeddf Natur Drefol derfynol. Mae'r gweithgaredd hwn yn ymarfer crynhoi da ar ôl astudio materion yn drylwyr mewn gweithgareddau neu wersi eraill.

## CYFLWYNIAD

Dim ond hyn a hyn y gellir ei gyflawni heb warchodaeth a grym deddfwriaeth. Defnyddir deddfau i warchod natur a bioamrywiaeth. Mae cofnodion rhywogaethau yn bwysig wrth ddeall sut mae natur yn newid ac yn darparu tystiolaeth i wneuthurwyr polisi i brofi bod angen gweithredu.

Mae deddfau yn cael eu hysgrifennu bob dydd. Mae eich barn amdanynt o bwys ac mae'n bwysig eich bod yn codi'ch llais a chael eich clywed. Fel dosbarth cewch chi benderfynu pa ddeddfau fydd yn cael eu pasio i helpu i warchod natur drefol.

## AMSER GOFYNNOL

Un awr

Dewisol: ymchwil i bolisïau neu faterion cyfredol sy'n bygwth natur drefol

## CYFRANOGWYR

Grwpiau o 3–5

## ADNODDAU GOFYNNOL

- Pennau marcio a dalennau mawr o bapur
- Dewisol: argraffu astudiaethau cyfredol neu astudiaethau achos

## CANLYNIADAU DYSGU

- Deall bod deddfau yn cael eu defnyddio i warchod yr amgylchedd a bioamrywiaeth
- Gwerthfawrogi y gall tystiolaeth wyddonol helpu i lywio deddfau newydd

## CYFARWYDDIADAU

1. Opsiwn 1: Pob grŵp i dreulio 10 munud i nodi bygythiadau allweddol sy'n wynebu natur drefol, cyn cyfnewid y rhain gyda grŵp arall.

Opsiwn 2: Y disgyblion i ymchwilio i ba ddeddfau sydd ar waith i warchod natur yn y DU a phroblemau cyfredol sy'n wynebu natur drefol fel tasg gwaith cartref cyn y dosbarth.

Opsiwn 3: Pob grŵp i dderbyn astudiaeth achos, megis erthyglau newyddion diweddar ac enghreifftiau o ddeddfau cyfredol.

2. Dylai'r disgyblion dreulio chwarter awr yn penderfynu pa gamau all gael eu cymryd. Gall y rhain gael eu cofnodi fel mapiau meddwl i'w rhannu gyda'r dosbarth yn ddiweddarach.

3. Dylai'r grwpiau ddrafftio eu syniadau yn ddeddfau arfaethedig. Gall pob grŵp gyflwyno hyd at dair deddf i'w hystyried.

4. Y disgyblion i gyflwyno eu deddfau arfaethedig i'r dosbarth. Pa dystiolaeth sydd ganddynt i wneud achos cryf? Ddylai'r dosbarth gael cyfle i ofyn cwestiynau cyn pleidleisio dros bob deddf?

5. Y disgyblion i bleidleisio i weld pa mor boblogaidd yw pob cynnig, drwy godi dwylo neu ar bapur.

6. Y dosbarth i fireinio a chytuno ar y deddfau a ddewiswyd cyn drafftio'r Ddeddf Natur Drefol.

## GWAITH PELLACH:

### Storïau cyfochrog

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu dwy stori fer wedi'u gosod yn 2050 – un yn dychmygu dyfodol sydd wedi cydymffurfio â'r Ddeddf Natur Drefol ac wedi mynd i'r afael â bygythiadau, a'r llall lle mae pethau wedi aros yr un fath a dim camau wedi'u gweithredu.

### Camau gweithredu

Mae sawl ffordd o gael gwneuthurwyr polisi i glywed eich llais.

Gallwch gysylltu â'ch Aelod Seneddol (AS) ynglŷn â mater sy'n bwysig i chi:

1. Ewch i https://senedd.cymru/dod-ohyd-i-aelod-o-r-senedd

Gallwch chi weld beth maen nhw wedi bod yn ei wneud yn Senedd Cymru. Oes yna bynciau maen nhw wedi cymryd diddordeb mawr ynddynt?

2. Meddyliwch sut y gallai AS helpu gyda'ch problem. Beth allech chi ofyn iddynt ei wneud i helpu?

3. Ysgrifennwch e-bost at eich AS, gan egluro'r broblem, eich barn amdano, a beth hoffech iddynt ei wneud.

Gallwch hefyd ysgrifennu deiseb i gyflwyno eich achos i'r llywodraeth. Deiseb yw llythyr sy'n egluro problem o fewn cyfraith neu bolisi, wedi'i lofnodi gan bobl sy'n cytuno.

Po fwyaf o lofnodion sydd ar y llythyr, y mwyaf pwerus ydyw. Yng Nghymru, os bydd deiseb yn cyrraedd 10,000 o lofnodion, bydd yn cael ei thrafod yn Siambr y Senedd.

Mae rhagor o wybodaeth am ddeisebau a sut mae deddfau yn cael eu gwneud ar wefan Senedd Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth sy'n gwarchod bywyd gwyllt a lleoedd gwyllt yn y DU ar wefan yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.